Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Dyddiad Polisi: 2/10/23

# CyswlltGyrfa

### Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Bangor

## Polisi i Recriwtwyr ar Hysbysebu Swyddi

Nod **CyswlltGyrfa** yw hysbysebu swyddi, profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddol yn effeithlon a chywir.

Rydym yn gofyn i chi wneud y canlynol:

- Rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir am y swydd, yn cynnwys pryd mae i'w hysbysebu, manylion llawn y cwmni a'r cyflog (nid oes raid datgelu hyn ond mae'n rhaid ei ddatgan er mwyn cyfateb hefo'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol), lleoliad, math contract (e.e. dros dro, parhaol), a dull ymgeisio.
- Nodi gwefan, neu gyswllt, lle gall ymgeiswyr gael mwy o wybodaeth am y swydd lle bynnag y bo modd.
- Sicrhau bod yr holl swyddi yn cyd-fynd â deddfwriaeth gyfredol ar gyflogaeth a chyfle cyfartal.
- Cadw at egwyddorion arferion gorau'r ISE, AGCAS ac NUS ar recriwtio Myfyrwyr a Graddedigion.

**Sylwch:**
Caiff yr holl gyflogwyr eu cynnwys yn awtomatig yng nghyfeirlyfr cyflogwyr y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, oni bai chawn gais gan gyflogwyr i beidio â'u cynnwys. Anfonwch e-bost at talent@bangor.ac.uk os nad ydych am gael eich cynnwys yn y cyfeiriadur.

Mae hawl gennym i olygu hysbysebion swyddi at ddibenion:

- Byrdra ac eglurder.
- Deddfwriaeth cydraddoldeb, lle mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i beidio â hysbysebu swyddi y gellid eu hystyried yn rhai gwahaniaethol.
- Gallwn gysylltu â sefydliadau hysbysebu, lle bo'n briodol, i egluro geiriad a manylion hysbysebion, neu i gael sicrwydd o eithriadau o ddeddfwriaeth y DU ar gyfle cyfartal.

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Mae gennym hawl i beidio â hysbysebu swyddi neu gyfleoedd gwirfoddol y credwn eu bod yn anaddas i'w hysbysebu drwy ein gwasanaeth, neu y teimlwn nad ydynt er lles gorau ein myfyrwyr a'n graddedigion. Yn arbennig, swyddi fel a ganlyn:

- Rhai lle mae gwybodaeth am y cwmni'n anghyflawn, e.e. nodweddion y cwmni, cyfeiriad heb ei gynnwys.
- Yn gofyn am i'r myfyriwr neu'r myfyriwr graddedig gael ei g/chofrestru'n hunan-gyflogedig er mwyn manteisio ar y cyfle heb sicrwydd o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.
- Rhai sydd â swydd-ddisgrifiadau camarweiniol, anghyflawn neu anghywir.
- Rhai sy'n hyrwyddo neu gymeradwyo gweithgaredd anghyfreithlon.
- Rhai sy'n cael eu hysbysebu gan asiantaethau (neu drydydd parti cyffelyb) ac sy'n gofyn i'r myfyriwr dalu ffi er mwyn ymgeisio.
- Rhai sy'n gofyn i'r myfyriwr neu'r sawl a raddiodd gofrestru'n hunangyflogedig i gymryd y swydd.
- Rhai sy'n gyfleoedd partneriaeth neu ecwiti'n unig gyda chwmnïau a sefydlwyd.
- Rhai sy'n gwmnïau masnachol perchnogol lle mae angen i raddedigion dalu ffioedd desg neu dalu am hyfforddiant.
- Rhai sy'n gysylltiedig â chynllun gwerthu pyramid, marchnata ar sawl lefel neu ddull tebyg i hynny.
- Rhai a all achosi perygl afresymol i iechyd ac/neu ddiogelwch myfyrwyr neu raddedigion.
- Rhai sy'n gysylltiedig â'r diwydiant rhyw, neu â chynnwys ar gyfer oedolion yn unig.
- Rhai sydd wedi'u hysbysebu gan unigolion preifat, yn arbennig lle mae'r swydd yn golygu gofalu am eraill.
- Rhai sy'n swyddi gwerthu/marchnata lle telir comisiwn yn unig.
- Rhai sy'n swyddi lle telir 'mewn nwyddau' yn hytrach na chyflog, e.e. tocynnau cyngerdd, talebau, prydau bwyd (swyddi yn y DU).
- Rhai sy'n ymddangos fel pe na baent yn cyflawni gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb neu ddeddfwriaeth arall ar gyflogaeth (swyddi yn y DU).
- Rhai nad ydynt yn talu Isafswm Cyflog Cenedlaethol (swyddi yn y DU).
- Mae gennym hawl i beidio â hysbysebu swyddi cynrychiolwyr brandiau/ rheolwyr brandiau ar y campws.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw atebolrwydd am weithredoedd myfyrwyr neu raddedigion a gaiff eu recriwtio o Brifysgol Bangor, ac nid yw'n gyfrifol ychwaith am gynnal profion cymhwyster ar fyfyrwyr.

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

***I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau'r llywodraeth dilynwch y dolenni allanol hyn:***

Canllaw arferion da AGCAS https://www.agcas.org.uk/The-Good-Practice-Guide

Darparu interniaethau o safon: arweiniad i gyflogwyr ac interniaid https://www.gov.uk/government/publications/providing-quality-internships-code-and-guidance-for-employers

The Institute of Student Employers https://ise.org.uk/

Isafswm Cyflog Genedlaethol https://www.gov.uk/national-minimum-wage

Deddf Cydraddoldeb 2010 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Cyflogaeth www.direct.gov.uk/en/Employment/index.htm

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol www.equalityhumanrights.com

Fforwm Cyflogwyr ar Anabledd www.efd.org.uk

Recriwtio Myfyrwyr Rhyngwladol www.ukba.homeoffice.gov.uk www.ukcisa.org.uk